# Dyfodol Darlledu Cyhoeddus

## Rhai syniadau

Stephen Fry

Cyn i mi hyd yn oed feddwl am ryfygu i feiddio dechrau ymhelaethu ar ba fath o organeb y dylai'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig fod, yn fy marn i, i ba gyfeiriad y credaf y dylai'r BBC fynd, sut y credaf y dylid ariannu'r BBC a rhwydweithiau Prydeinig eraill, pa fath o raglenni y dylai eu gwneud, eu datblygu a'u sgrinio a pha amrywiaeth o deisennau a ddylai fod ar gael yn ei gaffis a faint, i'r geiniog olaf, y dylai ei dalu i'w dalent, cyn hynny oll, credaf y dylwn, er cyfiawnder, redeg o amgylch y maes chwarae sawl gwaith wrth ebychu rhywfath o mini-fywgraffiad "Y BBC a Minnau", oherwydd, fel gyda nifer o bobl o'r un oedran, pwysau a maint esgidiau â minnau, mae'r BBC wedi'i weu'n dynn ym mrethyn fy mywyd, ac mae'n bwysig i mi, yn ogystal â chi, ddeall i ba raddau yn union. Dim ond wedyn y gallwn farnu synnwyr a gwerth fy syniadau, os oes synnwyr a gwerth iddynt o gwbl.

Dechreuodd popeth yn faban dwyflwydd wrth eistedd o dan gadair fy mam wrth iddi farcio traethodau (athrawes hanes oedd hi ar y pryd). Dyna pryd treiddiodd cerddoriaeth yr *Archers* i fy ymennydd am y tro cyntaf, heb adael byth wedi hynny. Llenwyd fy nghlustiau â lleisiau dosbarth canol Radio 4 (neu yn hytrach yr 'Home Service' i ddechrau), lleisiau fel Franklin Engleman yn mynd *Down Your Way*, menywod *Petticoat Line*, a phanelwyr *Twenty Questions, Many A Slip, My Word* a *My Music*. Wrth i mi ymweld â chartrefi pobl eraill a, bellach yn saith oed, fynd â fy radio dransistor gyda mi i'r ysgol breswyl, clywais *The Light Programme*, Radio 2 bellach, a Sparky's Magic Piano, Puff the Magic Dragon a Nelly the Elephant, a dechreuais selogrwydd gydol oes i gomedïau ar y radio wrth wrando ar *Round The Horne, The Clitheroe Kid, I'm Sorry I'll Read That Again, Just A Minute, The Men from The Ministry* a *Week Ending*.

Roedd hwn yn fyd lle roedd gan y BBC fonopoli cysurus, cyflawn bron ar y radio. Roedd pethau o'r enw llongau radio herwrol, y credaf fod Richard Curtis newydd ysgrifennu ffilm amdanynt, a'r rhain a esgorodd ar Radio 1 a chenhedlaeth o droellwyr, ond cerddoriaeth boblogaidd oedd hyn, rhywbeth a achosodd fraw a gofid i mi bryd hynny, ac sy'n parhau i wneud hynny hyd heddiw. Nid oes a wnelo hynny â fy nghenhedlaeth, mae fy nghenhedlaeth i â'u bryd ar gerddoriaeth boblogaidd, ond yn hytrach rhywbeth personol ydyw. Comedi oedd fy myd, boed hynny'n fyd swrrealaidd o ailddarllediadau'r *Goon Show*, budredd ensyniadol Kenneth Williams a Kenneth Horne, neu ffraethineb aeddfed Frank Muir a Dennis Norden. Mae nifer o'r enwau yr oeddwn yn eu trysori bellach yn angof i'r cyhoedd i raddau helaeth: Steve Race, Ian Wallace, Anthony Quinton, John Ebden, James Cameron, Kenneth Robinson. A dros y blynyddoedd diweddar

mae cryman creulon angau wedi medi blodau teg personoliaethau mawr y radio: Alastair Cooke, Linda Smith, John Peel, David Hatch, Ned Sherrin, Alan Coren ac yn olaf, dim ond ddoe bûm yn angladd yr enwog Humphrey Lyttleton. Efallai bydd y crymanu creulon hwn yn cael ei ddefnyddio fel esgus i ailddyfeisio arlwy'r radio mewn ffordd radicalaidd. Mae Radio 4 yn arbennig yn cael ei hailddyfeisio'n radicalaidd tua phob pum mlynedd, ond heb ddim effaith, diolch i'r drefn. Nid yw ailddyfeisio radicalaidd yn rhywbeth sy'n dod yn naturiol i'r meddwl sefydliadol Prydeinig. Yn wir os oes gennych feddwl sefydliadol, mae papur pennawd newydd yn newid digon ysgytwol a gofidus i gael ei ystyried yn ailstrwythuro o'r bôn i'r brig. Felly, mae newid amser *Woman's Hour*, caniatáu i *Gardeners' Question Time* gael ei gynhyrchu gan gwmni annibynnol ac ystormydd cosmig eraill o'r fath wedi cynrychioli'r newidiadau radicalaidd a sylfaenol i Radio 4 sydd wedi caniatáu iddi esblygu'n araf dros y degawdau, gan gydweddu a chyflinio â'i chynulleidfa graidd a darparu gwasanaeth mor amrywiol o ansawdd digyffelyb fel ei bod yn rheswm gwirioneddol dros fyw ym Mhrydain i rai pobl. Ond 'dim ond' radio yw hi: un o'r rhesymau ei bod wedi goroesi yw'r ffaith nad yw Associated Press, teicwniaid y cyfryngau na'r dosbarthau gwleidyddol yn hidio fawr amdani. Felly mae wedi ffynnu. Rhaid i mi droi yn awr at y teledu.

Efallai fy mod wedi tyfu i fyny wrth i Oes Aur y Radio fachlud, ond rwyf yn cyfoesi ag Oes Aur y Teledu. Symudodd fy rhieni i fyw mewn tŷ newydd pan oeddwn yn saith oed. Wel, symudodd pawb fel teulu, dwi ddim yn dweud bod fy rhieni wedi fy ngadael ar ôl, er pwy a fyddai'n eu beio pe baent nhw wedi gwneud hynny? Bryd hynny roeddem yn berchen ar deledu a oedd yn esgus bod yn gabinet diodydd mahogani, yr ôl yr arfer - ac nid oeddem yn eu galw'n 'deledu' yn unig, gyda llaw, *setiau* teledu oeddynt. Roedd sgrîn y teledu hwn yn ddu a gwyn, wrth gwrs, gydag un sianel, y BBC (sef BBC1 bellach) a nobyn sain gwrymiog bakelit brown tywyll. Roedd y set yn arogli fel yr oedd llwch yn arogli wrth iddo goginio ar falfiau Mullard wrth iddynt dwymo. Roedd y teledu yn rholio ar gastorau, ac roedd ganddo ddrysau a oedd yn cau gyda chlec foddhaol wrth i felen draul rolio i'w rhych i'w gau. Yr wythnos cyn i ni symud tŷ, dechreuodd y BBC gyfres ddrama newydd, gyda William Hartnell yn chwarae'r brif ran. Roedd gan hen ddyn, gydag enw fel Tad-cu neu y 'Doctor', flwch ffôn heddlu o'r fath a oedd i'w weld yn gyffredin yn y stryd yn y dyddiau hynny. Y gwir oedd bod y blwch ffôn yn beiriant amser hudol a rhyfeddol tu hwnt i bob dychymyg. Roedd fy mrawd a minnau'n gwylio'r ddrama hon mewn syfrdandod llwyr. Hon oedd y bennod gyntaf erioed o *Doctor Who*. Doeddwn erioed wedi fy nghyffroi cymaint yn fy mywyd. Roedd rhaid aros wythnos gyfan i wylio'r bennod nesaf. Dydy saith diwrnod byth wedi llusgo heibio mor araf, er gwaethaf y

broses gymhleth o symud tŷ o Swydd Buckingham i Swydd Norfolk. Wythnos yn ddiweddarach, yn y tŷ newydd, rhoddodd fy mrawd a minnau'r teledu ffyddlon ymlaen yn y lolfa newydd, yn barod i wylio'r ail bennod. Difrodwyd y teledu wrth symud tŷ, byth i weithio eto. Bu'n rhaid i ni golli'r bennod honno, ac ni all dim byd sydd wedi digwydd yn fy mywyd ers hynny, neu a all ddigwydd yn y dyfodol, wneud yn iawn am y siom ofnadwy hwnnw. Mae gwacter yn fy enaid na ellir ei lenwi byth. Mae'n rhyfeddod nad oedd y foment ofnadwy honno wedi'n troi ni'n dau yn aml-lofruddion seicopathig.

Gyda threigl amser daeth rhaglenni plant fel *Blue Peter*, pob rhaglen gan Oliver Postgate o *Noggin the Nog* i *Ivor the Engine* a hefyd *The Clangers* a *Bagpuss*. *Mr Benn*, *Play School, Play Away, Rent-a-Ghost, Grange Hill* a'r *Multi Coloured Swap Shop*. Roedd ein cenhedlaeth yn ffodus iawn. Wedi'n maldodi. Roedd ITV hefyd yn cyfrannu, wrth gwrs, gyda *Magpie* a *How* a nifer o raglenni eraill*.* Roedd hwn yn gyfnod o ddrama chwyldroadol gan gyfarwyddwyr ac awduron megis Alan Clarke, David Mercer, Kenneth Loach, Mike Leigh, Alan Plater, Michael Apted, Stephen Frears, Dennis Potter. Play of the Month, Play of the Week, Play for Today. *Cathy Come Home*, *Edna The Inebriate Woman*, *Pennies From Heaven, I Claudius, Tinker Tailor.* Dramâu poblogaidd o *Z Cars* i *Colditz*. A chomedi: Peter Cook a Dudley Moore, Monty Python, *Up Pompeii*, *The Goodies, Dad's Army*, Dick Emery, Morecambe and Wise, *The Likely Lads*, *The Two Ronnies*, *Porridge*, Reggie Perrin, *Fawlty Towers*. ...tra rhoddodd ITV *Rising Damp* i ni, ac anturiaethau'r bannod benodol gan Monty Berman and Dennis Spooner o ITC: *The Avengers, The Champions, The Adventurer, The Baron, Man in a Suitcase, The Prisoner, The Persuaders, The Protectors* ac wrth gwrs *The Sweeney* a *The Professionals*. Ac yn ystod y cyfnod hwn lansiwyd BBC 2 gan ddod â rhaglenni fel *Civilisation*, *The Ascent of Man* a datblygiad llawn ei rheolwr cyntaf, David Attenborough, fel hanesydd naturiol y byd.

Mae olyniaeth o swyddogion teledu gweithredol blaengar, dychmygus, goddefol, rhyddfrydol yn yr ystyr fwyaf rhydd, a oedd yn cadw pellter hyd braich mewn modd hynaws, o Gadeiryddion chwedlonol y BBC, Hugh Carleton-Greene a'r Arglwydd Hill ymlaen, wedi creu, ac wedi llywyddu dros chwyldro diwylliannol o ddyfnder, amrywiaeth, dychymyg a dynamiaeth ryfeddol. Ac yna, wrth i mi gael fy rhyddhau o'r carchar, gan ddechrau fy nghyfnod ar brawf ar yr un pryd â'r brifysgol, daeth tro ar fyd, a glaniodd Margaret Thatcher, y Mary Poppins newydd, yn Stryd Downing, gyda meddyginiaethau newydd i ni eu cymryd, ond prin iawn oedd y llwyeidiau o siwgr i'n helpu i'w llyncu. Nid wyf am roi'r bai arni hi na gwneud pwyntiau gwleidyddol. Roedd cyfeiriad y gwynt wedi troi, ac fe'i hysgubwyd i mewn arno, ac un dydd byddai hi'n cael ei hysgubo i ffwrdd

wrth i'r cyfeiriad droi eto. Ond dyna le roedd hi, a gofynnwyd cwestiynau sylfaenol, cyflwynwyd syniadau radicalaidd annychmygadwy mewn oes o breifateiddio a cheidwadaeth gwrth-dirigiste a gwrth-wladoli.

Ni newidiodd dim ym mlynyddoedd cyntaf y weinyddiaeth hir honno. Roedd ei llywodraeth yn brysur gyda dirwasgiad ofnadwy, rhyfel Ynysoedd Falkland, ymladd â glowyr a phethau felly. Yn ystod yr union gyfnod hwn, gadewais y Brifysgol gan ddechrau ar yr hyn y byddaf yn ei alw, o ddiffyg gair gwell, fy ngyrfa.

Comedi oedd fy man cychwyn ym myd teledu. Comedi oedd fy 'rock and roll' yn blentyn, a bellach roeddwn yn gallu ennill bywoliaeth drwyddo. Ceir dadl fod comedi yn well gwasanaeth cyhoeddus nag unrhyw genre arall o gelf neu ddiwylliant: mae'n pontio gwahaniaethau, yn falm i feddyliau dolurus, yn iacháu clwyfau cymdeithasol, yn datgelu gwirioneddau am sut rydym yn byw ein bywydau. Mae comedi yn cysylltu pobl. Mae hanes comedi'r BBC yn enwedig bron â bod yn gofrestr o fathau o gymeriadau, megis hanes cymdeithasol y wlad. Hancock, Steptoe, Mainwaring, Alf Garnett, Basil Fawlty, Baldrick, Victor Meldrew, Alan Partridge, Ali G, David Brent, y Cadfridog Melchett digyffelyb - mae'n anos o lawer rhestru mathau o gymeriadau o ddramâu difrifol sydd wedi treiddio i ymwybyddiaeth y genedl i'r fath raddau, ac sydd wedi diffinio dyheadau a methiannau cenedlaethau olynol i'r fath raddau. Mae darlledu cyhoeddus heb gomedi mewn perygl o gael ei ystyried yn ddim byd ond talp o ddarlledu buddiol ond diflas. Nid yw difrifoldeb yn fwy o warant o wirionedd, craffter, dilysrwydd neu gywirdeb nag y mae hiwmor yn gwarantu arwynebolrwydd a thwpdra. Gall angylion hedfan oherwydd nad ydynt wedi'u gorbwyso â'u hunanbwysigrwydd.

Yn y cyfamser, nôl at hanes, am eiliad. Beth oedd yn digwydd i ddarlledu yn ystod y cyfnod pan oeddwn yn magu fy adenydd comedi? Ym maes drama, roedd y gair "play" wedi'i wahardd i bob pwrpas. Film Four a Screen Two oedd popeth. Roedd y ddrama stiwdio aml-gamera, megis *I Claudius*, wedi mynd i ebargofiant, gyda phethau fel *Brideshead* a dramâu camera-sengl eraill yn arwain y ffordd. Ymddangosodd rhaglenni 'Yoof', sef rhaglenni anffurfiol i bobl ifanc, diolch i Planet 24, ac ymddangosodd Janet Street-Porter ac Adroddiad Peacock.

Ymddangosodd Adroddiad Peacock, y cyfeirir ato gan weithwyr darlledu proffesiynol yn y ffordd idiomatig sydd ganddynt fel Peacock, lai na degawd ar ôl Adroddiad Annan, a gyflwynwyd gan Noel fawr, yr Arglwydd Annan, i'r senedd yn 1977. Annan oedd y cyntaf i ganfod y drwg yn y caws o ran oes aur y BBC. Roedd o'r farn bod angen ad-drefnu byd teledu fel yr oedd yn cael ei redeg gan ITV a'r BBC, bod diffyg amrywiaeth, lluosogrwydd a

min, sef geiriau gwynfydedig o anghyfarwydd yn y dyddiau hynny. Am y tro cyntaf heriwyd daliadau sylfaenol darlledu patriarchaidd awdurdodol yn null Reith. Roedd yr egwyddor *de haut en bas* lle roedd y cynhyrchydd, y cyflwynydd a'r awdur addysgedig yn gwybod beth oedd yn llesol i'r wlad a'r gynulleidfa dan warchae. Y canlyniad cyntaf a mwyaf uniongyrchol oedd sefydlu Channel 4 dair neu bedair blynedd yn ddiweddarach, a oedd â'r genhadaeth benodol o siarad dros leiafrifoedd a rhannau o'r gymdeithas nad oeddent am gael eu cyflyru gan y dosbarthiadau addysgedig ffroenuchel. Cyflwynwyd y celfyddydau, rhaglenni dogfen, dramâu a rhaglenni comedi o hyd, ond mewn rhyw fath o arddull amharchus, yn llawn her a haerllugrwydd. Aeth naws y teledu o fod yn uchel-ael i isel-ael, gan hepgor naws ganol-ael yn llwyr. Ond roedd i'r geiriau 'radicalaidd' a 'diwygio' ystyr wahanol iawn i lywodraeth newydd a oedd wedi'i thanio ag angerdd ideolegol, ac felly cyhoeddwyd adroddiad newydd yn 1986: Peacock.

Dyma adroddiad a fwrodd y BBC oddi ar ei echel. Dechreuodd Peacock ragweld y posibilrwydd o amrywiaeth digidol ar raddfa y tu hwnt i'r dychymyg. Yn ogystal, cyflwynodd y syniad o fyd darlledu a arweinir gan ddefnyddwyr ac a lywir gan y farchnad, byd lle byddai'r egwyddor o ddarlledu cyhoeddus a ariennir gan ffi'r drwydded yn cael ei hystyried yn ddarfodedig. Roedd hyn yn cydweddu â chyfeiriad yr oes: dadreoleiddio, preifateiddio a datgymalu terfynau'r wladwriaeth - roedd yn digwydd yn y ddinas ac mewn diwydiant a'r cyfleustodau, pam nad darlledu felly? Yn sydyn reit nid oedd y BBC, a ddrwgdybiwyd ers tro o lochesu tueddiadau a phersonél a oedd yn sosialaidd ar eu gorau, ac yn Farcsaidd ar eu gwaethaf, bellach yn uchelgaer ddiogel ac anorchfygol. Nid oedd yn gyfrinach y byddai Norman Tebbit a rhai o selogion mwy ffwndamentalaidd y farchnad rydd a phobl wrth-sosialaidd yn y weinyddiaeth wedi bod yn falch iawn o gael datgymalu holl strwythur y BBC. Anwadalodd Peacock ac ymddangosodd fod y siartr yn ddiogel, ond am bris mawr. Ni fyddai dim byth yr un fath eto, roedd yr hen sicrwydd wedi diflannu, a daeth realiti cras cyfalafiaeth i Wood Lane a Portland Place. Dilewyd adrannau cyfan a diddymwyd arferion gwaith, a chrëwyd rhywbeth o'r enw'r farchnad fewnol. Cynhyrchwyd y Radio Times gan ddarparwr allanol, diswyddwyd y staff coluro parhaol, ac yn sydyn roedd peirianwyr, golygwyr a dylunwyr setiau allan o waith. Gorchmynnwyd y byddai 25 y cant o allbwn y BBC yn cael ei gynhyrchu gan ffynonellau allanol a daeth sector annibynnol newydd i fodolaeth. Cafodd cwmnïau fel Hat Trick a Talk Back lwyddiant megis dros nos. Dechreuodd Peter Bazalgette, a fu'n gynhyrchydd BBC nodweddiadol, gan ddechrau ei yrfa fel ymchwilydd *That's Life*, yna'n cynhyrchu *Food and Drink* a rhaglenni diniwed eraill o'r fath, ar lwybr a

fyddai'n ei arwain at Endemol, a dylanwad a chyfoeth y tu hwnt i bob dychymyg. Yn sydyn roedd dynion a menywod a dreuliai eu bywydau cyfan yn dyfeisio fformatau a syniadau darlledu fel rhan o'u swydd bellach yn cael y syniadau hynny y tu allan i safleoedd y BBC, yn eu hamser eu hunain, oherwydd gallai cynhyrchwyr bellach fod yn entrepreneuriaid. Roedd elw i'w wneud, ac roedd y fath beth â ffyddlondeb i'r BBC newydd hwn bellach yn syniad hurt. O'r diwedd gyrrwyd arogl mwg cetyn a brethyn cartref Hugh Wheldon allan o bob swyddfa, coridor ac ystafell gyfarfod yn y BBC. Ond o leiaf roedd y siarter yn ddiogel, roedd ffi'r drwydded yn ddiogel ac roedd y gorsafoedd radio a'r World Service a gwedd a ffurf cyffredinol y BBC yn ddiogel ac yn gyfarwydd. Roedd *Blue Peter* a Rownd Derfynol Cwpan yr FA ac *Only Fools and Horses* mewn bod o hyd. Lambie Nairn, sef darparwr allanol, oedd yn cynhyrchu delwedd y ddaear yn troi ar ei hechel a'r logo, ond roedd y 'Beeb' yma o hyd. Roedd David Attenborough a'r uned ym Mryste yn parhau i wneud rhaglenni hanes naturiol rhagorol, ac roedd rhaglenni drama a chomedi arloesol a newydd yn parhau i ennill gwobrau'r BAFTA ac Emmys.

A nawr... wel, gwyddom beth sydd wedi digwydd ers hynny. Teledu lloeren, teledu digidol, Freeview a bellach Freesat, y rhyngrwyd a ffonau symudol, iPlayer y BBC ar gyfer yr iPhone, Mac a PC, tyrfa o gyfryngau mor eang, cymhleth ac sy'n symud mor gyflym fel bod niferoedd gwylwyr teledu traddodiadol wedi gostwng yn sylweddol. Bellach caiff 3 miliwn ei ystyried yn nifer da o wylwyr ar gyfer drama BBC 1. Wrth gwrs yn y cyfamser mae ITV wedi troi'n fath newydd o endid, yn fwy atebol i'w chyfranddalwyr nag erioed o'r blaen, ac mae Channel 4, a fu erioed yn gyfuniad anesmwyth o ddelfrydau dyletswydd gyhoeddus a masnacheiddiwch y farchnad rydd, yn ei chael hi'n anodd peidio ag ymostwng i raglenni dogfen hynodbethau: *The Man With a Nose Growing Out of His Bottom*, *The Girl With Fourteen Nipples* a'r math hynny o embaras i bawb sy'n gysylltiedig â'r gwaith, nes bod amheuaeth yn codi ynglŷn â bodolaeth C4 a'i hawl i barhau.

Ac mae gennym BBC sy'n darlledu drwy bedair prif sianel i oedolion, nifer o sianeli plant, mae ganddo sianel newyddion, sianel seneddol a sianel HD. Mae hefyd ganddo sianel newyddion ar ffurf ei wefan news.bbc.co.uk, sef un o'r gwefannau newyddion mwyaf poblogaidd yn y byd. Mae ganddo'r iPlayer ar ei safle hefyd, sy'n ffrydio cynnwys i ddefnyddwyr yn y DU yn unig. Ond diawch, mae ffyrdd i oresgyn hynny. Ffrydio? Go brin: gellir storio a rhannu unrhyw beth y gellir ei chwarae ar eich cyfrifiadur. Mae copi digidol yn gopi perffaith. Unwaith bod deunydd allan ar y we, caiff ei addasu drwy ddulliau Limewire a Gnutella a dulliau dosbarthu P2P eraill. Mae'r BBC yn creu nifer o elynion drwy ddosbarthu rhaglenni am ddim ar ryngrwyd y mae pawb arall yn ceisio ei godro; ar hyn o bryd mae'n dibynnu

ar y ffaith bod yn rhaid i chi fod braidd yn lliprynnaidd i recordio o'r iPlayer, ond bydd hynny'n newid, credwch chi fi. Cyn hir ni fydd yn cymryd amrantiad i fy mam gael rhaglen iPlayer o'i chyfrifiadur a'i throsglwyddo i'w iPod, iPhone neu ba ddyfais bynnag a ddewisir ganddi. O ran ei waith digidol, o ryngweithedd i HD ac adnoddau ar-lein, bu'r BBC ar flaen y gad o ran gwaith datblygu, ond hefyd ar flaen y gad o ran codi gwrychyn y sawl nad ydynt yn mwynhau manteision y BBC.

Yn y cyfamser rwyf wedi parhau i fwynhau gyrfa hapus fel actor, perfformiwr, darlledwr, gwneuthurwr rhaglenni dogfen a bellach, gyda fy nghwmni cynhyrchu annibynnol fy hun, fel cynhyrchydd, felly mae'n amlwg nad oes gennyf le i gwyno: roedd yr hen system yn hawdd i mi oherwydd fy nghysylltiadau 'Rhydgrawnt', a dwi wedi elwa o'r system newydd hefyd. Er fy mod yn wyn ac yn ddosbarth canol, ond rwyf hefyd yn hoyw ac yn Iddew, felly mae pob math o flychau cydymffurfiaeth lleiafrifoedd yn cael eu ticio gan fy mhresenoldeb yn unig, onid ydynt? Wel, ydy hoywon ac Iddewon yn cyfrif fel lleiafrifoedd yn y busnes hwn? Ydych chi'n cofio'r olygfa honno yn *To Be Or Not To Be* gan Mel Brooks? Os cofiwch, roedd ef a'i wraig Anne Bancroft yn chwarae rhan gŵr a gwraig theatraidd yng Ngwlad Pwyl ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd. Wrth i'r Natsïaid oresgyn, mae mwy o aelodau o'i gwmni'n cael eu cipio. Un dydd mae Sasha, gwisgwr merchetaidd ei wraig, yn diflannu. Mae cymeriad Brooks yn colli ei limpyn yn llwyr. Mae'n dyrnu cledr ei law. 'Digon yw digon. Yr Iddewon yn gyntaf, yna'r sipsiwn, nawr yr hoywon. Nagyn nhw'n sylweddol nad oes y fath beth â byd adloniant heb Iddewon, sipsiwn na hoywon?'

Y pwynt yw bod gennyf fudd personol yn y sefyllfa bresennol. Neu os nad y sefyllfa bresennol, gellir gweld yn hawdd fod unrhyw farn sydd gennyf am ddarlledu yn farn rhywun sy'n rhan o'r diwydiant. Aelod o cosa nostra 'Rhydgrawnt', y cosa nostra hoyw ac yn wir y kosher nostra. Hefyd, hyd yn oed pe na bawn erioed wedi camu i'r byd darlledu, oherwydd y fagwraeth a ddisgrifiais, byddai'n anochel fod gennyf le annwyl iawn yn fy nghalon i ddarlledu cyhoeddus fel y BBC.

Mae nifer ohonom yn debygol, waeth beth fo ein galwedigaeth, o deimlo ffyddlondeb i'r math o ddarlledu a wyliwyd gennym yn ystod ein magwraeth, balchder ffyrnig yn hanes rhyfeddol yr ansawdd a'r arloesi sydd wedi nodweddu teledu a radio Prydeinig ers hanner canrif. Balchder, ffyddlondeb sentimental sy'n peri i ni godi ein lleisiau persain ac addysgedig yn uchel yn erbyn unrhyw farbariaid tybiedig wrth y porth. Am bris, llwyddwyd i wrthsefyll ymosodiadau Tebbit a'r wasg ar ein rhagfuriau, pris a oedd yn golygu bod nifer ohonom yn dod yn gyfoethog iawn - melltith arnat gyfalafiaeth! - a nawr mae gelyn arall yn ymfyddino,

neu o leiaf mae adroddiad newydd yn taflu ei gysgod bygythiol dros ein gwynfyd. Ac felly unwaith eto mae'n rhaid i ni feddwl, nid am sut y bu pethau, a sut y mae hi ar hyn o bryd, ond sydd y bydd pethau yn y dyfodol. Mae'r dyfodol yn galw. Beth fydd yn digwydd? Fel dywedodd Neils Bohr, y ffisegydd enwog o Ddenmarc "Mae darogan yn anodd iawn, yn enwedig o ran y dyfodol."

Nid yw'r adroddiad newydd hwn wedi'i lunio gan wŷr mawrion fel f'Arglwyddi Annan neu Peacock, ond yn hytrach - *o tempora o mores* - Adolygiad o Ddarlledu Cyhoeddus gan OfCom ydyw. Mae math newydd o flaidd wedi sleifio i'r cwt ieir. Nid oes dim byd sy'n wrthun o ran ei ideoleg i ni gwyno amdano, dim byd personol, ffilistaidd na masnachol ynfyd i ni ei fychanu gyda diystyrwch coeth, ond cynnig syml a gonest. Os ydym am barhau i weld y dirwedd ddarlledu ym Mhrydain yn frith o raglenni o safon sy'n gallu hysbysu, difyrru, addysgu ac ehangu gorwelion gwylwyr ym Mhrydain yna efallai dylem dderbyn 'model' newydd ar gyfer ariannu a hwsmona tirwedd o'r fath. Gadewch i ffi'r drwydded nawr gael ei rhannu ymysg y BBC a'i wrthwynebwyr. Gadewch iddi gael ei sleisio, fel dywed y jargon.

Diawch. Dyna syniad deniadol. Twt iawn. Ac mor ddeniadol i'n meistri gwleidyddol. Gellir caniatáu i'r bendithion Blairaidd/Brownaidd o ryngfridio cyhoeddus/preifat gyfuno â'r gydnabyddiaeth hollol resymol bod yn rhaid rhannu adnoddau yn y byd newydd ffyrnig hwn o ddarlledu sbectrwm-gyfoethog, aml-led band - rhaid gadael i bawb gael eu pig i mewn.

Nodais gynnau fod Peacock wedi anwadalu drwy beidio â chreu tirwedd hollol fasnachol; efallai ei bod yn agosach at y gwirionedd i ddweud bod y BBC wedi ennill rhan o'r ddadl bryd hynny oherwydd cynigiwyd yn llwyddiannus gan Andrew Graham a Gavyn Davies, ymhlith eraill, fod darlledu yn achos arbennig, nad yw rheolau'r farchnad yn gymwys iddo. Fel yn y lluoedd arfog, amddiffyn yr arfordir, yr heddlu a meysydd eraill, ni ellir rhoi rhwydd hynt i gyfalafiaeth yn y meysydd hyn. Pe baem ni'n rhoi'r gorau i hwsmona gweunydd Swydd Efrog neu Ardal y Llynnoedd y canlyniad fyddai chwyn, prysgwydd neu ddiffeithdir, nid tirweddau ffrwythlon mwy effeithiol o'r Almaen neu Dde Corea yn darparu dewis i gwsmeriaid a chystadleuaeth wirioneddol. Oni ariennir rhaglenni arloesol, newydd a mentrus, bydd y chwyn yn ein tagu. Hon oedd y ddadl, a hi oedd drechaf. Ond. Ond yn y pen draw roedd yn ddadl a gymhwyswyd i fyd darlledu sbectrwm gwael, lled band isel. Roedd Gavyn Davies ac eraill yn gallu dadlau na fyddai amrywiaeth na dewis gwirioneddol o ddatgymalu ffi'r drwydded mewn marchnad rydd, oherwydd ni ragwelwyd pa mor

syfrdanol o amryfal fyddai posibiliadau technegol ailddarlledu, dosbarthu, perchenogaeth a rheoli hawliau rhaglenni tua ugain mlynedd yn ddiweddarach. Yn y cyfamser mae cystadleuaeth breifat wedi dyfalbarhau â'r wrthddadl. 'Mae'r farchnad yn gweithio mewn gwirionedd, dim ond pan fydd wedi'i dominyddu'n annheg gan fonolithiau cymorthdaledig fel y BBC ni fydd yn gweithio. Pe baech yn dileu eu heffaith wyrdroadol ar y farchnad yna byddai popeth yn iawn. Bydd dewis ac amrywiaeth yn teyrnasu.' Cofiaf i Hugh a minnau ysgrifennu sgets lle chwaraeais ran gweinydd a sylweddoli fod rhywun a oedd yn bwyta yn fy mwyty yn weinidog darlledu Torïaidd. Dywedais wrtho cymaint oeddwn yn edmygu ei bolisïau o ddewis, dewis y defnyddiwr, rhyddid dewis. Yna arswydais wrth sylwi mai dim ond cyllell a fforc arian oedd ganddo fel cytleri wrth ei fwrdd. 'Na, na, mae nhw'n iawn,' meddai'r gwleidydd dryslyd. Ond aeth fy nghymeriad i ffwrdd, gan ddychwelyd gyda bag biniau enfawr, a thywalltais gynnwys y bag dros ei fwrdd. Roedd yn cynnwys miloedd ar filoedd o'r llwyau plastig gwyn a ddefnyddir i droi coffi. 'Dyna ti,' sgrechiais yn wallgof arno, bron â gwthio'i drwyn i'r domen o blastig gwyn, 'nawr mae dewis gen ti. Edrycha ar yr holl ddewis hyn. Efallai mai cachu yw'r cyfan, ond edrycha ar y dewis!' Daw'r sgets i ben wrth i finnau geisio'i dagu. Dychan llawdrwm o bosib, ond dyna sut ymddangosodd y perygl i mi: 30 neu 40 sianel yn llawn sbwriel. Sylweddololodd Peacock berygl hynny hefyd, ac roedd model ariannu unigryw'r BBC yn ddiogel - am y tro o leiaf.

Yn y cyfamser mae'r farchnad rydd yn wych, mae wedi profi pa mor farus yw'r gwneuthurwr rhaglenni mwyaf sosialaidd - gwyliwch wrth iddynt ymbalfalu am y miliynau wrth i'w cwmnïau cynhyrchu gael eu lansio ar y farchnad stoc.

Ac o ran darlledu, ar ôl gwyriad gwallgof o gredu mai dosbarthu oedd popeth, mae pob rheolwr yn y cyfryngau bellach yn ailadrodd y mantra 'Y cynnwys yw'r cyfan'.

Ymddengys eu bod yn edifarhau, gan ddweud 'nid bod yn berchen ar gymaint o orsafoedd, rhwydweithiau ac allfeydd â phosibl yw nod rheolwr yn y cyfryngau erbyn hyn - y nod yw cynhyrchu, gwneud pethau. Gwelaf hynny bellach.'

'Hwre!,' bloeddia'r gwneuthurwyr rhaglenni, 'rydych yn deall o'r diwedd. Felly rhowch yr arian i ni.'

'Pa arian?' dywed swyddogion gweithredol y cyfryngau, 'does dim arian. Rydym wedi gwario'r arian yn prynu cwmnïau â'u hen raglenni. Roeddem angen cynnwys ar frys, oherwydd - rhag ofn nad oeddech yn ymwybodol...y cynnwys yw'r cyfan.'

Arhoswch am funud...ond beth am gynnwys newydd?'

'Neno'r tad na. Ydych chi'n wallgof? Llawer rhy ddrud.'

Gellid ystyried bod y dadleuon ar gyfer cadw'r strwythurau ariannu yn rhai cymhellol: er gwaethaf popeth, mae'r BBC yn parhau i wneud yr hyn y mae ganddo ddyletswydd i'w wneud. Mae'n gwneud rhaglenni. Mae'n creu comedïau ac adloniant poblogaidd arloesol, yn datgelu rhywfaint o'n treftadaeth ddiwylliannol ar ffurf dramâu gwisgoedd, rhaglenni dogfen, hanes a gwyddoniaeth; mae'n ein hysbysu, yn ein haddysgu ac yn ein difyrru, mae'n dweud wrthym am galon dyn a'r cosmos, y byd eang a'r stryd gul, mae'n ymateb i dechnolegau newydd ac yn dal i lwyddo i gadw rhywfaint o ymdeimlad o fod yn aelwyd genedlaethol.

Pe bai'n cael ei orfodi i fod yn fasnachol, pwy fyddai'n elwa? Sut y byddai dewis y defnyddiwr ac ansawdd yn cael ei gynnal? Pa systemau tramor a fyddai'n darparu patrymau deniadol i'w dynwared? Neb a dim. Ni ddylem newid dim.

Gellid dadlau dros hyn oll o ystyried y BBC yn unig. Ond mae gan OfCom gyfrifoldebau ehangach wrth gwrs, fel y mae gan y llywodraeth. Rhaid iddynt daro cydbwysedd rhwng darpariaeth gyhoeddus a chystadleuaeth breifat ar draws diwydiant cyfan o dechnolegau cydgyfeiriol a chenadaethau croes i'w gilydd. Maent yn edrych ar gyflwr ITV sy'n cael trafferthion â'r bwlch cynyddol rhwng gwariant ac incwm, ac yn edrych yn benodol ar Channel 4 gyda'i sefyllfa amwys fel gweithredwr masnachol sydd yn aml â chylch gwaith anfasnachol gwrthbwysol. Dyna eironig. Mae Channel 4 yn enghraifft berffaith o ogoniant y sector preifat a chyhoeddus, ond yn hytrach na rhoi rhyddid iddi, mae wedi'i llesteirio gan ei chyfansoddiad unigryw. Sut gallwn sicrhau dyfodol iach i rwydweithiau o'r fath ar ôl y newid i ddigidol? O ble y daw'r arian?

A beth am gwmnïau preifat eraill sydd am fuddsoddi yn y cyfleoedd gwych a gynigir gan ddarlledu ar-lein: Sut y gallant gystadlu â'r BBC a'i gymhorthdal annheg? Ni ellir honni na all y farchnad weithio mwyach, ac mae'n bryd ystyried darlledu mewn ffordd newydd. Diolch i TiVo, Apple TV, Sky Plus, Elgato a mathau eraill o beiriannau recordio fideo personol, mae'r set deledu bellach yn siop manwerthu clyweledol sy'n gwybod am y defnyddiwr, ac yn ymateb iddynt. Gweler dewis marchnad gwirioneddol, nid oes aelwyd genedlaethol, nid oes gan yr unigolyn a'i declyn rheoli, waeth beth yw ei gysylltiadau, unrhyw gyfran mewn ffyddlondeb i sianel, dim diddordeb mewn brandio rhwydwaith: dangoswch y rhestr gynnwys iddynt, mewn categorïau sy'n cynnwys rhaglenni cyffro, rhaglenni oedolion, y celfyddydau, rhaglenni plant, rhaglenni dogfen, drama, ffilmiau: mewn is-gategorïau, ac is-is-gategorïau clystyrog, diddordeb arbennig yn ôl

oedran, crefydd, ethnigrwydd a rhyw - pwy sy'n dweud na all y farchnad diwallu anghenion lluosogrwydd, amrywiaeth a chynhwysiant?

Y defnyddiwr sy'n rheoli - neu fe fydd yn rheoli cyn hir: nid oes angen sianelau wedi'u brandio yn Un Dau Tri Pedwar, boed yn BBC neu'n ITV. Nid oes angen dim byd ond y cynnwys. Ac os ydych am i'r cynnwys fod unrhyw beth yn fwy, mymryn o arlliw o awgrym yn fwy na'r hyn y mae grymoedd y farchnad yn galw amdano, os ydych wir eisiau i'r cynnwys fod yn ddyrchafol, urddasol, addysgol, arloesol, o'r brig i'r bôn, maethlon ac o fudd hael a theg i Brydain a'i dinasyddion, yna ie, yn sicr, yr unig ffynhonnell o arian am hynny yw ffi'r drwydded.

Cyhyd â bod chwarae teg, bydd y farchnad yn gofalu am y blychau pen set, y systemau dosbarthu, y gwifrau digidol i'r siop manwerthu, sef teledu'r defnyddiwr, tra gall ffi'r drwydded - os oes rhaid iddi ac os yw'n hoffi'r syniad - dalu am y cynnwys nad yw'n gallu talu ei ffordd ei hunan yn y farchnad gystadleuol arferol. Ac os yw Channel 4 yn dymuno (neu os oes rhaid iddi oherwydd ei chylch gwaith) gwneud y math *hwnnw* o raglenni gwasanaeth cyhoeddus yn ogystal â *Hollyoaks* a *The Girl Whose Breasts Talk German*, yna dylai ffi'r drwydded dalu am hynny hefyd. Mae oes y BBC fel sefydliad cenedlaethol, yn cynnal ac yn cyflwyno cynnwys a ariannwyd yn gyhoeddus ar ben. Rhaid torri rhai o frigau'r dderwen fawr er mwyn gadael i olau'r haul dywynnu ar rai o'r coed llai o'i hamgylch. Rheoli arian ffi'r drwydded yw darlledu cyhoeddus bellach: nid oes angen BBC am hynny, neu yn hytrach mae angen BBC sydd wedi'i symleiddio. Nid oes rhaid iddo geisio bod yn bopeth i bawb, gall ganolbwyntio ar wasanaeth cyhoeddus a gadael y rhaglenni masnachol poblogaidd i'r sector preifat.

Diawch! Radicalaidd. A deniadol. O bosibl. Yn ddeniadol o bosibl. Nid i mi, rhaid i mi ddweud, ond nid Prydain wyf fi, na Phrydeiniwr arferol. Gall y ddelwedd hon o gartref y defnyddiwr fel rhyw fath o siop lyfrau electronig, fel yr amlinellwyd gan y guru busnes cyfryngau, Barry Cox, lle rydym yn symud o fod yn wyliwr goddefol i fod yn ddefnyddiwr gweithredol ymddangos yn ddeniadol i rai, ond rydym eisoes yn gyfarwydd â'r model hwnnw mewn gwirionedd. Rydym yn gyfarwydd ag ef o ystafelloedd gwestai a systemau adloniant awyrennau.

Mae'n dechnegol bosibl, yn enwedig gyda pheiriannau recordio fideo personol, ond ai darlledu yw hynny, ai dyna beth mae unrhyw un ei *eisiau* mewn gwirionedd? Nid darlledu mohono mewn gwirionedd, ond 'dar-gulhau'. Ond ai dyma beth mae pobl ei eisiau? Ni wn, ni allaf siarad dros Brydain, ni allaf ragweld canlyniadau polau piniwn, er gallaf ddychmygu pa mor hawdd fyddai iddynt gynhyrchu'r canlyniadau sydd eu heisiau gan y ddwy ochr, yn dibynnu ar sut y gofynnir y cwestiynau. "Ydych chi am weld

datgymalu'r BBC fel bod yn rhaid i chi ddewis a thalu am bob rhaglen fel ar ddewislen ffilmiau mewn ystafell westy?" NA "Ydych chi am stopio talu ffi'r drwydded a rhoi terfyn ar gael eich gorfodi i wylio rhaglenni dogfen rhwysgfawr ac yn lle hynny cael mynediad i filoedd o ffilmiau a rhaglenni cyffrous drwy bwyso botwm?" IE. GIGO, fel yr arferwyd dweud yn nyddiau cynnar cyfrifiaduron: garbage in, garbage out.

Ond dibwys iawn yw hynny i'r broblem wirioneddol. Cynnwys. Cynhyrchu. Gwneud rhaglenni. Yn anffodus rhaid ysgrifennu a gwneud rhaglenni teledu. Yn wahanol i siocled Yorkie neu beli tenis neu ffonau symudol, ni allwch ddechrau'r peiriant yn unig a'u cynhyrchu am byth. Rhaid datblygu, meithrin a phrofi pob rhaglen newydd felltigedig. Rhaid creu cydberthnasau rhwng awduron, perfformwyr, cyflwynwyr a chyfarwyddwyr, rhaid derbyn methiannau. Sut y cyflawnir hyn yn y byd newydd mentrus yn dilyn y newid i ddigidol ac ailstrwythuro gwraidd a bôn, ni wn.

Byddai hyd yn oed y dadansoddwr neu'r sylwebydd mwyaf pybyr o blaid y farchnad rydd yr wyf wedi'u clywed neu eu darllen yn cyfaddef bod angen gwasanaeth newyddion da, diduedd; bod cenedl yn haeddu cael cyfle i weld rhaglenni sy'n datgelu gwirioneddau amdanynt eu hunain a'r byd. Ond yn bennaf byddant yn dadlau hefyd mai os dyna fydd y BBC yn ei ddarparu, gellir ei symleiddio, gall y gorfforaeth hepgor yr angen i wneud *Doctor Who* a *Strictly Come Dancing*, gall ITV ofalu am raglenni poblogaidd, fel y byddai ei gyfran o'r gynulleidfa yn cynyddu, gan leihau'r bwlch arswydus rhwng gwariant ac incwm, tra byddai arian yn cael ei ryddhau drwy gwtogi ar uchelgais y BBC yn y byd digidol, mewn gwneud ffilmiau, mewn rhaglenni poblogaidd, mewn achlysuron chwaraeon, arian a allai greu rhaglenni darlledu cyhoeddus gwell, a chaniatáu i Channel 4 gael arian a fyddai'n ein hachub rhag mwy o raglenni fel *The Boy Whose Testicles Play The Harpsichord*.

Neu efallai y gellir gweithredu system darlledu cyhoeddus sy'n seiliedig ar y model Americanaidd o danysgrifio cyhoeddus, neu fodelau Seland Newydd a Singapore, sy'n seiliedig ar rywfath o gorff ariannu canolog. Ni ellir honni bod y naill neu'r llall yn arbennig o lwyddiannus, ond eto maent yn rhyddhau arian y gellir ei daflu at gymaint o ddarlledu cyhoeddus ag y mae unrhyw un ei eisiau, a gadael i'r cwmnïau masnachol fwrw ymlaen â'r gwaith o wneud y deunydd masnachol go iawn.

Ond beth fyddai'r BBC hwnnw wedyn? Pwy fyddai'n ei wylio? Sut y gellid denu cynulleidfa i sianel nad oedd yn dangos dim byd ond rhaglenni buddiol ond diflas, ni waeth pa mor ardderchog ydynt? Onid holl bwynt y BBC fel prif sianel, fel sefydliad pwysig ym maes cynhyrchu rhaglenni

teledu ar draws y sbectrwm o genres a demograffeg, onid holl bwynt y BBC yw ei allu i ddenu cynulleidfaoedd i raglenni darlledu cyhoeddus drwy rinwedd eu ffyddlondeb ac ymddiriedaeth mewn brand sy'n rhoi adloniant, yn blwmp ac yn blaen? Onid yw'r gallu i drosglwyddo rhaglenni o BBC4 i 2 neu BBC3 i 1 yn enghraifft o hynny, yn union fel y gall fod o drosglwyddo rhaglenni o BBC2 i 1? Rwyf wedi cyfrannu at raglenni sydd wedi gwneud y daith honno. Dechreuodd *Who Do You Think You Are?* ar 2 ac aeth i 1, fel *Have I Got New For You* a dechreuodd rhaglen ddogfen a wnes i'n ddiweddar ar Gutenberg ar 4 ac yna fe'i sgriniwyd ar 2, gan ddenu nifer da iawn o wylwyr yn ôl pob son, ac aros ymysg y 3 uchaf o'r rhaglenni mwyaf poblogaidd ar iPlayer am wythnos. Ni fyddai wedi bod yn bosib denu'r gynulleidfa honno at yr hyn a oedd, yn fy marn i (yn naturiol) yn enghraifft bwysig a pherffaith o raglen darlledu cyhoeddus, heb yr hysbysebu traws-sianel a ffyddlondeb i'r sianel a ganiateir gan natur hollgynhwysol y BBC. Ar un ystyr, mae natur y BBC, fel y mae ar hyn o bryd, yn 'rhoi caniatâd' i bob math o bobl wylio rhaglenni na fyddent o bosib yn eu gwylio fel arall.

Beth yw'r dewis amgen, cartref sydd megis siop lyfrau electronig a getoeiddiwyd ac a falcaneiddiwyd, dim gorsafoedd, dim rhwydwaith, dim ond 'dar-gulydd' yn poeri cynnwys allan ar sianelau sy'n cyflawni rhywfath o broffil demograffeg erchyll a sarhaus: mamau dosbarth canol, gwehilion gwynion, pobl yn eu harddegau, hoywon, pobl dduon sy'n hoffi cerddoriaeth, merched penchwiban, cefnogwyr chwaraeon, gwragedd tŷ sydd wedi diflasu, i gyd yn gwylio rhaglenni a wnaed yn benodol ar eu cyfer, gyda hysbysebion yn eu targedu. Ai dyna ystyr cynhwysiant? Ai dyna ystyr lluosogrwydd? Duw a'n gwaredwn, gobeithio ddim.

A sut bynnag, oni ellir deall nad adloniant yn unig yw'r hyn a elwir gennym yn 'adloniant'. Afraid i mi roi'r ddadl ym maes comedi: Gervais a Merchant, Lucas a Walliams, Mitchell a Webb, Catherine Tate, tîm Gavin and Stacey, a chyn hynny Ali G, Steve Coogan ac eraill dirifedi, datblygodd pob un ohonynt eu crefft dros amser, gan fethu ambell waith, roedd angen meithrin pawb. Ni fyddai neb heblaw'r BBC wedi gallu gwneud *Blackadder*, yn enwedig oherwydd cost a methiant cymharol y gyfres gyntaf. A yw hynny'n cyfrif fel adloniant neu fel darlledu cyhoeddus? A oes rhaid i ni wahaniaethu? Dyna'r pwynt yn sicr. Gyda phob parch i OfCom a Barry Cox, a holl ddadansoddwyr y cyfryngau a'r newyddiadurwyr darlledu sy'n mynnu gwneud, a oes rhaid i ni wahaniaethu mewn gwirionedd?

Rhaid i mi daro nodyn personol eto. Roeddwn am wneud dwy ffilm am anhwylder deubegynol, a oedd rhaid i mi gredu fy mod yn gwneud cyfres gwasanaeth cyhoeddus? Onid oedd yn bosib i mi gredu, fel yr oeddwn, fy mod yn gwneud dwy raglen deledu yr oeddwn yn gobeithio y byddai

cymaint o bobl â phosib yn eu gwylio, yn union fel y byddaf yn gobeithio petawn yn gwneud drama neu gomedi? Ie, efallai bod y ddwy ffilm am iselder manig wedi cyflawni gwasanaeth cyhoeddus, un y gellid bod wedi cynnal gwaith dilynol unigryw arno drwy adnoddau'r BBC ar y radio, gwefannau a llinellau cymorth, ond a wnaeth y nifer foddhaol fawr o wylwyr wylio *oherwydd* ei fod yn ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus? Pa mor sarhaus yw hynny i bawb dan sylw?

Drwy ofyn i mi fynegi fy marn, tybiaf fod y BBC wedi gobeithio, ond heb fynnu hynny mewn unrhyw ffordd, y byddwn yn gwrthwynebu toriadau, yn dadlau yn erbyn sleisio ffi'r drwydded: o leiaf byddant wedi disgwyl i mi ddadlau dros agweddau gwasanaeth cyhoeddus comedi, a'i bwysigrwydd a'r angen i'w feithrin a'i goleddu. Rwy'n falch o wneud hynny, nid oherwydd ffyddlondeb tragwyddol a chred mewn sefydliad sydd wedi fy magu, cymaint ag unrhyw ysgol neu goleg, ond oherwydd mewn gwirionedd ni allaf weld y byddai Prydain yn elwa o leihau unrhyw ran o gyfanrwydd mawr y BBC. Dylid craffu arno mor fanwl â phosib wrth gwrs, o ran gwerth am arian, gostyngeiddrwydd priodol ac ati, ond byddai lleihau ei ddarbodion maint a'i ddylanwad artistig, cymdeithasol a chenedlaethol am goegresymau ideolegol neu gynildeb yn drychineb. Rydym wedi cyrraedd y fan hon ar hyd llwybr anarferol sy'n mynd yn ôl i Reith. Rydym wedi esblygu mewn modd hynod, fel ein senedd a sefydliadau eraill, dyna'r ffordd Brydeinig. Ie, gallwn chwalu popeth ac ail-greu ein hunain yn nelwedd yr Eidal neu Awstria neu ryw wladwriaeth fodern arall dybiedig. Gallwn hogi'r fwyell, gallwn gymynu'r pren pydredig, gallwn ail-ddyfeisio'r olwyn, gallwn ildio i ddymuniadau naturiol cwmnïau cyfryngau masnachol. Er bod gennyf fwyell i'w hogi o ran hyn, dylech ddeall mai dadl bersonol yw hon yn hytrach na phroffesiynol. Mewn gwirionedd, os gweithredir sleisio ffi'r drwydded a chynlluniau radicalaidd eraill, ni chredaf y byddai'n effeithio ar fy ngyrfa fel perfformiwr, cyflwynydd neu gynhyrchydd; y ffaith yw y byddwn y debygol o elwa'n fwy o'r newid. Y ffaith syml yw nad wyf am fyw mewn gwlad sy'n ysbaddu'r BBC. Ydw, rwyf am weld diogelu Channel 4, ond ni chredaf mai'r unig ffordd i'w hachub yw lleihau'r BBC. Gallwn fforddio'r hyn y penderfynwn y gallwn ei fforddio.

Pan fyddwch yn ymweld â gwlad arall ac yn sylwi ei bod yn gwario mwy o arian ar flodau ar ei gylchfannau nag ydym ni, rydych yn meddwl...wel, pam nad ydyn ni'n gwneud hynny? Dyna dlws. Dyna ddymunol. Dyna wahaniaeth. I wario arian er budd y cyhoedd mewn ffordd sy'n cyfoethogi, yn rhoi pleser, yn gwella ansawdd bywyd, dyna braf. Dyna gyflawniad gwirioneddol. Dim ond blodau ar gylchfan ydynt, ond dyna beth braf. Wel, mae gennym rywbeth sy'n gyfystyr â blodau ar gylchfan, ond filwaith yn well: mae'r BBC yn cyfoethogi'r wlad mewn ffyrdd na fyddwn ond yn eu

darganfod ar ôl iddo fynd, a bydd yn rhy hwyr i'w ailadeiladu. Mewn gwirionedd gallwn fforddio'r BBC, gan na allwn fforddio bod hebddo.